**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**CYFARFOD BLYNYDDOL**

**17 Mehefin 2013**

**PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad yw i gynnig i'r Awdurdod benodi aelodaeth pwyllgorau mewnol a rhai amrywiol allanol gan gynnwys cynrychiolydd i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Cefndir

2 Mae gan yr Awdurdod gyfres o bwyllgorau y gwneir penodiadau iddynt yn y cyfarfod cyntaf neu'r cyfarfod blynyddol. Mae'r rhain wedi eu nodi isod.

3 Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chymhwyso cydbwysedd gwleidyddol i aelodaeth ei Bwyllgorau o dan Reol 20 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990. Edrychwyd ar y mater hwn eto yn ystod adolygiad cyfansoddol yng nghanol 2008-09. Mae consensws cyffredinol wedi bod na fyddai cydbwysedd gwleidyddol yn fuddiol gan fod y trefniadau presennol yn gynhwysol ac yn osgoi creu 'rhaniad gwleidyddol' yn llywodraethiad yr Awdurdod.

4 Cynrychiolir yr Awdurdod ar y cyrff canlynol:

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | Y Cadeirydd fel arfer |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Panel Gwasanaethau Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd |
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân Gweinidogol Tân ac Achub | Y Cadeirydd fel arfer |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Atal Tân | Cadeirydd |

## Gwybodaeth

5 Gwneir penodiadau i'r Pwyllgorau canlynol fel yr amlinellir yn atodiad 1:-

- Panel Gweithredol (14 aelod)
- Pwyllgor Archwilio (14 aelod)

6 Mae cylchoedd gwaith y Pwyllgorau, os ydynt yn bodoli, wedi eu cynnwys yn Llawlyfr yr Aelodau.

7 O ystyried fod rhaid i awdurdodau cyfansoddol gymhwyso'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol ar eu pwyllgorau (ond yn achos cabinetau), anogir awdurdodau i enwebu aelodau i'r Awdurdod hwn ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Dylai'r Awdurdod ei hunan ystyried yn flynyddol os yw'n dymuno cymhwyso cydbwysedd gwleidyddol, gan nodi sylwadau paragraff 3 uchod. Os fyddai'r Awdurdod yn cymhwyso'r egwyddor hyn, dylid gwneud penodiadau i bwyllgorau sy'n sicrhau fod gan yr holl awdurdodau cyfansoddol gynrychiolaeth ddigonol.

8 Mae aelodaeth o'r Panel Gweithredol yn cynnwys 14 aelod, sef Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a dau aelod o bob awdurdod cyfansoddol. Mae'r aelodaeth yn cynrychioli 50% o aelodaeth yr Awdurdod. Estynnwyd swyddogaeth ac aelodaeth o'r Panel yn yr adolygiad cyfansoddol yn ystod 2008-09.

9 Cytunodd yr Awdurdod i gyflwyno Pwyllgor Archwilio i adolygu, craffu a sicrhau, yn annibynnol o'r Gweithredol, perfformiad gweithredol ac ariannol y sefydliad. Aelodaeth y Pwyllgor yw'r 50% o'r aelodaeth sy'n weddill sydd heb eu penodi ar y Panel Gweithredol.

**Argymhellion**

10 Argymhellir fod yr Awdurdod yn:
(i) ystyried cymhwyso'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol i Bwyllgorau;
(ii) ystyried penodiadau i'r Panel Gweithredol, Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Safonau fel a amlinellir yn yr adroddiad; a
(iii) phenodi cynrychiolwyr i'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | Y Cadeirydd fel arfer |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Panel Gwasanaethau Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd |
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân Gweinidogol Tân ac Achub | Y Cadeirydd fel arfer |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Atal Tân | Cadeirydd |

**Atodiad 1**

## PANEL GWEITHREDOL

| Aelod | Awdurdod Cyfansoddol |
|---|---|
| Cadeirydd | |
| Dirprwy Gadeirydd | |
| Lewis Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Jeffrey M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Peter Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Adrian Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Richard Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Peter Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| Brian Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Hilary McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| William Roy Owen | Cyngor Gwynedd |
| William Tudor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Anne Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Mae Aelodaeth y Gweithgor Cynllun Gwella yr un fath â'r Panel Gweithredol

## PWYLLGOR ARCHWILIO

| Aelod | Awdurdod Cyfansoddol |
|---|---|
| J Rodney Skelland (Cadeirydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Owen Thomas (Dirprwy Gadeirydd | Cyngor Sir y Fflint |
| Jim Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Delyth MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dewi Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Roger Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Paul Penlington | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| Mike Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| Chris Hughes | Cyngor Gwynedd |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Linda Jones | Cyngor Gwynedd |
| Arfon Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geoff Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |